

**Tasg 3**

## Papurau siocled

Mae rhai pobl yn hoffi casglu papurau siocled.

**1. Gwaith pâr.**

Rhaid i chi ddod â 2 bapur siocled i'r wers Gymraeg.

Edrychwch ar y papurau siocled.

Trafodwch y papurau a llenwch y grid yma.

<b>Enw'r siocled:</b>		
Pa faint? (bach / canolig / mawr?) Pwysau?		
Beth sy ar y papur? e.e. Ysgrifen? Llun? Logo? Pris? Pa wybodaeth sy ar y papur? Rhywbeth arall?		
Ydy'r papur yn lliwgar? Ydy neu Nac Ydy?		
Gwybodaeth arall?		

Trafodwch y papurau yma gyda grwpiau eraill.

**Geirfa**

papur siocled	chocolate wrapper	ysgrifen	writing
pwysau	weight		


2. Pa un ydy'r papur siocled gorau yn eich barn chi?  
Rhowch resymau dros eich ateb.

3. Rydych chi'n mynd i ddylunio papur siocled newydd.

Cynlluniwch:

- Pa far siocled?
- Beth ydy maint y bar siocled?
- Faint ydy pwysau'r bar siocled?
- Beth fydd ar y papur siocled
  - Pa liwiau?
  - Ysgrifen?
  - Llun?
  - Logo?
  - Pris?
  - Pa wybodaeth fydd ar y papur siocled?
  - Rhywbeth arall?

Gwnewch y papur siocled.



4. Dangoswch eich papur siocled i'r grŵp.

Disgrifiwch y papur siocled.

Ydych chi'n cofio sut i ddisgrifio?

Os ydych chi eisiau help, edrychwch eto ar **Ciwb**, Rhifyn 6 a Rhifyn 14.

Beth ydy barn y grŵp?

Ydych chi'n cofio sut i fynegi barn?

Os ydych chi eisiau help, edrychwch eto ar **Ciwb**, Rhifyn 2, Rhifyn 7 a Rhifyn 15.

